

CYFLWYNIAD

Os oes gennych ychydig o oriau'r wythnos yn sbâr, metr sgwâr neu ddwy o le, a phibell ddŵr, gellwch dyfu eich coed eich hun ar gyfer eu plannu ar y fferm. Ar ben yr arbedion cost o gymharu â phrynu o'r blanhigfa, dylai coed sy'n cael eu tyfu o had gennych chi fod wedi addasu'n well i'r amodau lleol, a gellwch godi a phlannu pryd bynnag y bo hynny'n gyfleus yn ystod y tymor plannu (Hydref i Fawrth).

Casglwch aeron a ffrwythau pan fyddant yn aeddfed yn yr hydref. Bydd mes a chnau castan melys yn disgyn i'r ddaear.

RHYWOGAETHAU

Rydym yn argymhell eich bod yn dechrau gydag un neu nifer bychan o blith detholiad cyfyngedig o rywogaethau cyffredin.

Rhywogaethau hawdd:

Derw, Castanwydd Melys, Cyll

Gwahanwch yr had oddi wrth y plisg a phlannwch ar unwaith mewn lôm sy'n draenio'n dda neu gompost mewn potiau, cafnau neu welyau wedi eu codi. Gorchuddiwch bob hedyn gyda dwywaith ei uchder o bridd. Heuwch fwy o hadau nag y byddwch eu hangen er mwyn caniatáu ar gyfer colledion. Diogelwch nhw'n drylwyr rhag llygod, adar a gwiwerod gyda rhwyll fân.

Ychydig yn fwy anodd:

Criafol, Eirin Tagu, Afalau Surion Bach, Ceirios

Stwnsiwch y ffrwythau aeddfed a'u chwyrlio mewn bwced o ddŵr. Bydd y pwlp yn arnofio a'r hadau'n suddo. Heuwch ar unwaith fel uchod neu eu cymysgu â phridd tywodlyd mewn pot blodau mawr sy'n draenio'n dda a'u diogelu rhag llygod. Storiwch y tu allan yn agored i'r elfennau, a heuwch fel uchod yn Chwefror neu Fawrth.

Bedw a Gwern

Casglwch yr had yn Awst/Medi ar gyfer bedw a thrwy'r gaeaf ar gyfer gwern a'u storio mewn bag papur neu hesian mewn lle oer a sych. Heuwch ar yr wyneb ym Mawrth neu Ebrill. Gwasgwch i lawr ond peidiwch â gorchuddio'r hadau. Mae ar y rhywogaethau hyn angen goleuni i egino. Cadwch nhw'n llaith.

Anodd:

Ynn, Drain Gwynion, Celyn, Yw

Mae'r hadau hyn yn aros ynghwsg am ddau aeaf. Gellir cymysgu allweddau ynn gyda chompost, a gellir echdynnu drain gwynion, celyn ac yw (mae hadau'r ywen yn wenwynig) mewn dŵr fel gyda'r criafol uchod. Heuwch yn y gwanwyn ar ôl dau aeaf yn y potiau.

TYFU EICH COED

Anelwch at gael planhigyn bob 2 i 4 modfedd sgwâr (neu un i bob pot) felly teneuwch/trawsblannwch fel bo'r angen. Dyfrhewch yn rheolaidd, ond peidiwch â gor-ddyfrhau. Bydd darparu amddiffyniad rhag y gwynt yn gwella cyfraddau twf yn sylweddol. Bwydwch rhwng Mehefin ac Awst os bydd angen ond peidiwch â'u gorfwydo. Ni ddylai planhigion iach ddioddef oddi wrth blâu neu afiechydon difrifol. Os oes problemau mawr yn digwydd, gellir eu trin gyda'r cynhyrchion arferol o ganolfan arddio.



Ffig 1: Eginblanhigion bedw mewn gwely

Yr uchder delfrydol yw 30cm a mwy gyda bôn y coesyn o leiaf mor drwchus â phensel. Mae gwreiddiau da cyn bwysiced ag uchder.

PLÂU AC AFIECHYDON

Gall llygod a gwiwerod fwyta hadau a gall cwningod fod yn broblem fawr i blanhigion ifanc.

Mae'r mwyafrif o rywogaethau coed cynhenid yn bur wydn. Osgowch or-ddyfrhau gan y gall hyn arwain at wanychiad. Byddwch ar eich gwyladwriaeth am lwydni, yn enwedig ar dderw.

YSTYRIAETHAU CYFREITHIOL

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn gyfrifol am reoli'r cyflenwad o "Ddeunydd Atgynhyrchiol Coedwigol" (hadau, moch coed, toriadau a chyff plannu a ddefnyddir i sefydlu coedwig). Mae 46 o rywogaethau o goed, a'r genws Poplys, sy'n dod o dan y rheoliadau hyn. Os ydych chi'n bwriadu gwerthu coed wedi eu tyfu o'ch had eich hun, bydd yn rhaid ichi gofrestru gyda'r Comisiwn Coedwigaeth fel cyflenwr. Ymwelwch â <http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-66SG3X> am wybodaeth a chanllawiau llawn. Er mwyn gallu marchnata'r had/coed, bydd angen i chi sicrhau "Tystysgrif Meistr" gan y Comisiwn Coedwigaeth. Rhaid ymgeisio am hon o fewn naw mis i gasglu'r had.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Coed Cymru ar (01686) 650777. Mae'r Cyngor Coed hefyd yn cynhyrchu llyfryn rhagorol 'The Good Seed Guide' sy'n costio £3.50, ar gael o www.treecouncil.org.uk